Rhaglen Ymchwil ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

# Adolygiad o sgiliau ac arweiniad wrth asesu cost a budd rheoli perygl llifogydd a risgiau arfordirol

Crynodeb Prosiect FRS18201/S

Roedd y prosiect hwn yn edrych ar sut y gallem helpu ymarferwyr i gynnal asesiadau cost a budd cynnar o'r rhaglenni buddsoddi arfaethedig ar gyfer rheoli perygl llifogydd a risgiau arfordirol. Bydd hyn yn helpu i gynyddu nifer y cynlluniau hyfyw sy'n cael eu datblygu i Raglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.[1] Bydd hefyd yn helpu i reoli disgwyliadau canlyniadau ac anghenion cyllido posibl y cynllun yn well.

**Cwmpas y prosiect**

Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth a sgiliau'r dau ddull presennol o asesu cost a budd yn y llawlyfr amryliw.[2] Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. offeryn sy'n amcangyfrif y niwed pwysol blynyddol cyfartalog. Dyma offeryn syml wedi'i seilio ar daenlen sy'n gallu cyfrifo buddion posibl cynllun lliniaru llifogydd yn seiliedig ar amcangyfrifon o nifer yr eiddo yn yr ardal sydd mewn perygl o gael llifogydd gyda'r cynllun a heb y cynllun.
2. yr offeryn arfarnu cost a budd symlach ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Offeryn taenlen yw hwn hefyd sy'n cyfrifo'r difrod economaidd a buddion posibl y cynllun.

**Dull gweithredu**

Fe ddefnyddion ni arolygon i ddarganfod pwy sy'n defnyddio'r dulliau a'r offer, sut, pryd a pham maen nhw'n gwneud hynny, a beth allen ni ei wneud i wneud hyn yn haws.

Nododd yr adborth rwystrau posibl i ddefnyddio'r dulliau asesu cost a budd presennol:

- Diffyg ymwybyddiaeth o'r dulliau ac offer presennol
- Diffyg eglurder ynghylch pryd a sut i gymhwyso'r offer
- Dealltwriaeth annigonol o'r cyfrifiadau a ddefnyddiwyd ynghyd â sawl gwall fformatio o fewn yr offer, gan arwain at ddiffyg hyder yn y canlyniadau
- Defnyddwyr nad oes ganddynt y data cywir i ddefnyddio'r offer, a/neu ddiffyg gwybodaeth am sut i gyrchu a dehongli'r data

Datblygwyd canllawiau cam wrth gam ar gyfer dau offeryn y llawlyfr amryliw yn seiliedig ar adborth defnyddwyr. Bydd y canllawiau yn helpu defnyddwyr sydd â phrofiad cyfyngedig neu ddim profiad o gwbl. Cafodd allbynnau drafft eu mireinio trwy brofi gyda grwpiau Awdurdodau Rheoli Risg mewn amgylchedd gweithdy.

Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd trwy'r profion defnyddwyr i gefnogi mentrau hyfforddi ehangach.

**Casgliadau**

Mae'r ddau offeryn llawlyfr amryliw yn darparu asesiadau cyflym a syml o fuddion posibl cynlluniau lliniaru llifogydd. Fodd bynnag, mae angen sgiliau mwy arbenigol i gwblhau'r gwaith sydd ei angen i gael y data angenrheidiol i gynnal yr asesiadau, a gall yr allbynnau fod yn ddryslyd.

---

[1] Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

[2] Llawlyfr amryliw ar-lein

Bydd y canllawiau a ddatblygwyd yn yr astudiaeth yn annog Asiantaeth yr Amgylchedd ac Awdurdodau Rheoli Risg i gael mynediad at yr offer a'u defnyddio. Gall hyn hefyd leihau nifer y bobl sy'n datblygu eu hoffer lleol eu hunain.

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o brosiect FRS18201, yr adroddir amdano'n fanwl yn yr allbwn/allbynnau canlynol:

**Adroddiad:** FRS18201/R
**Teitl:** Cryfhau penderfyniadau buddsoddi wrth Reoli Perygl Llifogydd a Risgiau Arfordirol: adolygiad o sgiliau ac arweiniad wrth asesu cost a budd

**Atodiadau:**

FRS18201/R Atodiad A Adolygiad llenyddiaeth
FRS18201/R Atodiad B Canllaw i ddefnyddwyr, gan gynnwys canllawiau cam wrth gam ar gyfer offeryn WAAD ac offeryn arfarnu cost a budd wedi'i symleiddio

**Ebrill 2021**

**Rheolwr y prosiect:** Hayley Bowman
**Contractiwr ymchwil:** Jacobs, Burderop Park, Swindon, UK, SN4 0QD. www.jacobs.com

Cafodd y prosiect hwn ei gomisiynu gan Gyfarwyddiaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu ar y cyd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

E-bost: fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk.

Ymholiadau: enquiries@environment-agency.gov.uk.

© Asiantaeth yr Amgylchedd